Fy Nghyf: REF/P2S26/
Eich Cyf:

2 Mawrth 2026

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk

County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

At Riant/Rieni/ Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid:

Annwyl Riant/Rieni/Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid

**Trosglwyddo i Addysg Uwch: Medi 2026**

Rwyf yn ysgrifennu i'ch hysbysu o ganlyniad eich cais i Ysgol Uwchradd. Mae'n dda gennyf ddweud fy mod yn gallu cynnig lle i'ch plentyn yn XXXXXXXXXX i gychwyn ym Medi 2026.

Yn anffodus, ni fu'n bosibl cynnig lle i'ch plentyn yn yr ysgol gymunedol ganlynol/ysgolion canlynol yr oeddech wedi eu gosod yn uwch o ran dewis yn eich cais.

**Os ydych wedi gwneud cais am le mewn ysgol Ffydd neu Syfydledig nad yw'n ymddangos uchod, dylech aros am ohebiaeth gan yr ysgol honno.**

<u>Pam na chafodd fy mhlentyn le mewn ysgol o ddewis uwch?</u>

Cawsom fwy o geisiadau na'r lleoedd oedd ar gael yn yr ysgol/ysgolion, ac nid oedd eich plentyn yn gymwys i gael lle o dan feini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig y Cyngor yn y cylch dyrannu cychwynnol. Ceir crynodeb ar sut y caiff lleoedd ysgol cymunedol eu dyrannu ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk/derbyniadauuwchradd)

<u>Beth sy'n digwydd nawr?</u>

Bydd angen i chi dderbyn neu wrthod y cynnig hwn, er mwyn i ni ei roi i blentyn arall os nad oes ei angen arnoch chi mwyach. Ni fydd derbyn y cynnig yn effeithio ar eich lle ar restr aros eich ysgol o ddewis ac ni fydd yn effeithio ar eich hawl i apelio.

I dderbyn neu wrthod y cynnig, mewngofnodwch i'r Porthol Derbyn Ar-lein, a chlicio'r ymateb perthnasol. Neu gallwch ymateb drwy e-bost (derbyniadauuwchradd@caerdydd.gov.uk)

Rhaid derbyn eich ymateb erbyn **<u>dydd Llun 16 Mawrth 2026.</u>** Os na fyddwn wedi derbyn eich ymateb erbyn y dyddiad hwnnw, byddwn yn cymryd nad ydych eisiau'r lle a gellir tynnu'r cynnig yn ôl a'i roi i blentyn arall.

Mae lle eich plentyn wedi'i gynnig ar sail yr wybodaeth a roddwyd gennych yn eich cais, a'r prosesau a wnaed gan y Cyngor i wirio'r wybodaeth hon. Yn unol â pholisi derbyn cymeradwy'r Cyngor, gellir tynnu unrhyw le a gymeradwyir yn ôl yn yr amgylchiadau canlynol:
os canfyddir nad yw amgylchiadau'r plentyn bellach yn bodloni'r meini prawf derbyn a oedd yn sail i gynnig y lle ysgol
os canfyddir y gwnaed y cais o dan amgylchiadau twyllodrus, neu
os gwnaed cynnig y lle ysgol ar gam.

GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis, dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU
The Council welcomes correspondence in Welsh, English or bilingually. We will ensure that we communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

Os bydd eich plentyn yn newid cyfeiriad, neu'n bodloni meini prawf gordanysgrifio nag y rhai a ystyriwyd yn eich cais, **rhaid** i chi hysbysu'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn ddi-oed trwy e-bostio derbyniadauuwchradd@caerdydd.gov.uk

Sylwer y bydd unrhyw gynnig o le wrth fynd i Flwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd gymunedol yn cael ei dynnu'n ôl gan y Cyngor os nad yw'r plentyn yn mynychu'r ysgol o fewn 20 niwrnod ysgol ar ôl dechrau tymor Hydref 2026.

Mae cyngor teithio i'r ysgol ar gael ar dudalen we Cadw Caerdydd i Symud https://keepingcardiffmoving.co.uk/
Bydd Cyngor Caerdydd yn cynnig teithio i'r ysgol am ddim yn unig os bydd ysgol agosaf sydd ar gael wedi cael ei chymhwyso ar ei gyfer, ac mae'n fwy na 3 milltir i gerdded o gartref y plentyn. Ni fydd plentyn yn gymwys i dderbyn teithio i'r ysgol am ddim, beth bynnag, pa mor bell yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol, os na chafodd lle yn yr ysgol agosaf sydd ar gael ei gais, neu os bydd y rhiant/plentyn wedi gwrthod cynnig lle yn eu hysgol agosaf sydd ar gael.

Mae gwybodaeth ynghylch Cludiant Ysgol ar gael ar wefan y Cyngor ar:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Trafnidiaeth-Ysgol/Pages/default.aspx

Mae eich plentyn wedi ei roi ar restr aros yr ysgol(ion) o ddewis uwch. Os bydd eich plentyn yn gymwys am le yn eich ysgol(ion) o ddewis yn hwyrach, bydd y tîm Derbyn i Ysgolion yn cysylltu â chi. Sylwer bod lleoedd yn cael eu dyrannu ar sail y meini prawf cyhoeddedig, nid ar hyd y cyfnod mae'ch plentyn wedi bod yn aros am le.

Bydd eich plentyn yn parhau ar y rhestr aros tan 30 Medi 2026 oni ddywedwch wrth y Cyngor nad ydych bellach am gael eich ystyried. **Ar ôl y dyddiad hwn, bydd enw'ch plentyn yn cael eu symud oddi ar y rhestr a bydd angen i chi wneud cais 'o fewn blwyddyn' newydd i barhau ar y rhestr.**

A allaf apelio yn erbyn y penderfyniad?

Rydych yn gallu apelio am le yn eich ysgol ddewisol. I gychwyn apêl, rhaid i chi gwblhau ffurflen apelio, sydd ar gael o wefan y cyngor www.caerdydd.gov.uk/apeliadauysgol. Rhaid dychwelyd y ffurflen i *Clerc y Panel Apeliadau Derbyn i Ysgolion Annibynnol* yn y cyfeiriad a roddir ar y ffurflen erbyn dydd Llun 16 Mawrth 2026 fan bellaf.

Mae'n bosibl y collwch eich hawl i apelio os derbynnir hi wedi'r dyddiad hwn. Efallai y gwnaiff y Panel ystyried clywed eich apêl os cafodd ei chyflwyno'n hwyr oherwydd amgylchiadau anodd neu am nad oeddech yn deall yr hyn yr oedd angen ei wneud. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd i ystyried eich apêl os na chyflwynwch hi erbyn y dyddiad cyhoeddedig.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses apelio ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/apeliadauysgol

Sut gallaf ddysgu mwy?

Cydnabyddir bod hwn yn gyfnod anodd o rieni a phlant sydd heb gael lle mewn ysgol ar gyfer Medi 2026.

Mae Llyfryn Gwybodaeth y Cyngor ar gyfer Rhieni yn rhoi manylion pob ysgol a gynhelir yng Nghaerdydd ac mae'n esbonio polisi'r Cyngor o ran derbyn i ysgolion. Mae ar gael ar wefan y Cyngor, ar www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Derbyn i Ysgolion drwy C2C ar 02920 872088, neu e-bostio derbyniadauuwchradd@caerdydd.gov.uk

Yn gywir,

**Tîm Derbyn i Ysgolion**
**Addysg a Dysgu Gydol Oes Cyngor Dinas Caerdydd**

---

*Caiff eich gwybodaeth ei phrosesu dan Ddeddf Diogelu Data 2018 i gyflawni tasgau cyfreithiol a rheoliadol Cyngor Caerdydd fel awdurdod lleol. I gael rhagor o wybodaeth am y data personol sydd gennym ac am ba hyd y byddwn yn ei gadw, gweler ein Polisi Preifatrwydd; www.caerdydd.gov.uk/hysbysiadpreifatrwydd*

*Os oes gennych bryderon am y modd y cafodd eich data ei drin, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r Cyngor yn diogeludata@caerdydd.gov.uk*

Mae eich gwybodaeth wedi cael ei rhannu â PSL er mwyn cysylltu â chi heddiw. I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae PSL yn rheoli data personol, gweler y Polisi Preifatrwydd; https://pslprint.co.uk/privacy-policy/

*Your information is processed under the Data Protection Act 2018 to fulfil Cardiff Council's legal and regulatory tasks as a local authority. For further information on what personal data we hold and how long we keep it for, please view our Privacy Policy; www.cardiff.gov.uk/privacynotice*

*If you have concerns about how your data has been handled, contact the Council's Data Protection Officer via dataprotection@cardiff.gov.uk.*

*Your information has been shared with PSL in order to contact you today. For further information on how PSL manage personal data,*